

Gwranddo ar Gymunedau

Pecyn Cymorth i
Ddatblygu Arwyddocâd
Cymunedol



Hydref 2026

Awduron: Ruth McKew, Headland Design a Kevin Mason

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

Cam 1

Y cefndir i arwyddocâd casgliadau – pam y mae amgueddfeydd yn ystyried arwyddocâd, gan gyfeirio at y Pecyn Cymorth Asesu Arwyddocâd Casgliadau

3-4

Cam 2


Pennu casgliadau a chymunedau, a chanllawiau ar gyfer sefydlu gweithdai

5-6

Cam 3

Canllawiau, taflenni a gwybodaeth ar gyfer cyfranogwyr

7-10



Y Cefndir i Arwyddocâd Casgliadau

Pam y mae amgueddfeydd yn ystyried arwyddocâd, gan gyfeirio at y Pecyn Cymorth Asesu Arwyddocâd Casgliadau

Cyflwyniad

Datblygwyd y pecyn cymorth atodol hwn i helpu amgueddfeydd i ddod i ddeall eu casgliadau'n well drwy asesu arwyddocâd gan wahodd cymunedau i gymryd rhan a mynegi barn. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Pecyn Cymorth Asesu Arwyddocâd Casgliadau ar gyfer Amgueddfeydd Cymru sydd ar gael drwy [wefan Llywodraeth Cymru](#) neu'r Ymddiriedolaeth Casgliadau (Collections Trust). Un o nodweddion allweddol y Pecyn Cymorth Asesu Arwyddocâd Casgliadau yw ei fod yn ystyried arwyddocâd cymunedol ac yn ceisio cynnwys yr agwedd bwysig hon o wahanol safbwyntiau, yn cynnwys safbwyntiau grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Dangosodd gwaith ymchwil gydag amgueddfeydd yng Nghymru nad oes gan fframweithiau arwyddocâd eraill fethodoleg na strwythur sy'n ein galluogi i ddeall casgliadau Cymru yn eu cyfanrwydd, nac i lawn ystyried gwerth hanesyddol a chymunedol ochr yn ochr ag agweddau mwy traddodiadol ar arwyddocâd.

Roeddem yn awyddus i'r pecyn newydd sicrhau bod gwerth cymunedol a gwybodaeth ac arbenigedd aelodau'r cymunedau (yn hytrach nag academyddion yn unig) yn cael eu cydnabod a'u mynegi.

Mae adborth staff amgueddfeydd yn ystod ein hymchwil yn dangos y gall fod yn anodd cael ymateb allanol gan gymheiriaid (peers), arbenigwyr, academyddion ac aelodau'r cymunedau. Mae'r pecyn cymorth hwn yn cyflwyno fframwaith i gefnogi'r gwaith, yn enwedig drwy gynnwys cymunedau.

Treialwyd y Pecyn Cymorth Arwyddocâd Cymunedol hwn pan oedd gwaith ac ymchwil ar y gweill ar ran Llywodraeth Cymru i benderfynu sut olwg fyddai ar gynllun Cydnabod neu gynllun Dynodi ar gyfer casgliadau o bwys cenedlaethol a rhyngwladol yn amgueddfeydd Cymru. Mae'r ddwy astudiaeth hyn wedi arwain at set o flaenoriaethau ar gyfer deall arwyddocâd casgliadau:

Rydym yn awyddus i amgueddfeydd:

- Drafod arwyddocâd o wahanol safbwyntiau a gan wahanol leisiau
- Defnyddio set o offer sy'n addas ar gyfer gwahanol adnoddau a chapasiti
- Datblygu arferion gwaith sy'n helpu pobl i fynegi arwyddocâd at nifer o wahanol ddibenion
- Ystyried sut y gall casgliadau ddod yn fwy teg.



Asesiadau o Arwyddocâd Casgliadau

Beth yw hyn a pham y byddech yn cynnal un?

Mae asesiad o arwyddocâd casgliadau yn broses systematig a ddefnyddir i ymchwilio i werth hanesyddol, gwyddonol, esthetig, cymdeithasol a diwylliannol casgliadau amgueddfeydd, ac yna werthuso a chyfleu hynny. Gallai hyn fod yn eitem unigol, yn rhan o gasgliad neu'n gasgliad cyfan. Amlinellir y broses o gynnal asesiad yn y Pecyn Cymorth Asesu Arwyddocâd Casgliadau ac mae'n dechrau gyda gwaith cynllunio ac adolygiad o gasgliadau a fydd yn sicrhau bod gennych yr holl wybodaeth angenrheidiol am y casgliadau, ac adnoddau a lle priodol ar gyfer y gwaith. Ar ôl yr Asesiad Arwyddocâd dylid cynnal adolygiad sy'n gwerthuso'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella er mwyn gwneud y broses yn fwy effeithlon os caiff ei hailadrodd.

Bydd asesiad arwyddocâd yn:

- Eich helpu i ddeall gwerth eich casgliad yn well
- Llywio penderfyniadau ynghylch caffael a gwaredu casgliadau
- Eich galluogi i wneud penderfyniadau strategol ynghylch casgliadau'ch amgueddfa a diweddarau polisïau rheoli casgliadau
- Eiriol dros y casgliadau neu helpu i gyflwyno'r achos dros gael grant
- Rhoi mwy o wybodaeth i chi am y casgliadau er mwyn datblygu gweithgareddau ymgysylltu ac arddangosfeydd a gwaith dehongli newydd
- Mynegi arwyddocâd cenedlaethol neu ryngwladol eich casgliadau er mwyn sicrhau casgliad a gaiff ei gydnabod yn ffurfiol fel un arwyddocaol.



Mae'r pecyn cymorth hwn yn rhoi'r cefndir a'r cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal gweithdai arwyddocâd cymunedol sy'n rhan o'r broses o ddatblygu Asesiad Arwyddocâd. Gall y sgysiau, y nodiadau a'r wybodaeth a gesglir gael eu hymgorffori mewn Datganiad Arwyddocâd. Efallai mai gwaith sy'n gysylltiedig â'r gymuned yw'r dull mwyaf priodol i'w fabwysiadu er mwyn cadarnhau arwyddocâd casgliad, neu gellid ei ddefnyddio i ychwanegu at wybodaeth a gofnodwyd eisoes mewn data am gasgliadau.

Pennu Casgliadau a Chymunedau, a Chanllawiau ar gyfer Sefydlu Gweithdai

Dewis Casgliadau a Chymunedau

Yn aml, bydd y casgliad a ddewisir yn gysylltiedig â phrosiect neu arddangosfa, neu efallai bod y prosiect yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â grŵp cymunedol a fyddai'n dewis y casgliad. Dewisir y casgliad am resymau ymarferol ar sail y data sydd ar gael am y casgliadau. Os mai'r casgliadau yw'ch man cychwyn, eich tasg chi fydd chwilio am gymunedau a grwpiau sydd â diddordeb yn y casgliad neu gysylltiad ag ef. Gallai hwn fod yn gysylltiad sy'n ymwneud â'u gwaith, eu hobiau neu eu diddordebau, ble maen nhw'n byw, neu eu hethnigrwydd neu o ble maen nhw'n dod, eu rhywedd neu eu hoedran. Weithiau bydd grwpiau o'r fath yn dod â gwybodaeth a seilir ar eu profiad neu efallai y bydd ganddynt gysylltiad emosiynol, neu ymateb creadigol i'r gwrthrychau.

Mae'r tabl isod yn dangos rhai enghreifftiau o brosiectau peilot yng Nghymru.

Casgliadau	Grwpiau cymunedol
Offer gwaith coed yn Amgueddfa Ceredigion	Myfyrwyr ar gysiau adeiladu a grŵp Men's Shed
Sampleri o Amgueddfa Sir Gâr	Grwpiau lleol gwnïo a brodwaith
Casgliad o Lestri Llanelli yn Amgueddfa Parc Howard	Haneswyr a masnachwyr antiques lleol
Llechi cerfiedig a wnaed gan weithwyr llechi – yn Storiell	Artistiaid a gweithwyr llechi

Gwneud y cysylltiad cyntaf a meithrin ymddiriedaeth

Mae'r adran hon yn dilyn canllawiau a ddarparwyd gan Dr Marian Gwyn.¹ Gall cydweithio â chynulleidfaoedd newydd fod yn her, yn enwedig o ran gwybod sut i gysylltu am y tro cyntaf â phobl a chymunedau nad oes gennych berthynas â nhw eisoes. Y peth allweddol yw edrych y tu hwnt i rwydweithiau arferol y sefydliad, a bod yn barod i greu cysylltiadau anffurfiol a meithrin ymddiriedaeth. Mae'n bwysig bod yn glir ac yn onest am y ffordd y bydd pobl yn cael eu cynnwys, a sut y defnyddir eu cyfraniad. Isod, mae Marian yn cynnig syniadau ar gyfer dechrau meithrin perthnasoedd newydd. Dywed ei bod yn bwysig peidio â gadael i bryder am 'wneud camgymeriad' ddod yn rheswm dros beidio â gweithredu o gwbl. Mae Marian – a enillodd Wobr 'Radical Changemaker' Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA) yn 2024 – yn arbenigo mewn arferion gwaith cynhwysol a chynrychiolaeth yn y sector diwylliannol yng Nghymru.



¹ Ymhlith ei chyhoeddiadau diweddar mae: 'Museums in Wales: Identities, Empire and Slavery', yn Globalising Welsh Studies: Decolonising History, Heritage, Society and Culture (Gwasg Prifysgol Cymru, 2024). Mae'n dal i wneud gwaith cynghori a gwaith partneriaeth gyda sefydliadau ac asiantaethau diwylliannol ledled Cymru.

Canllawiau ymarferol ar ymgysylltu â chymunedau newydd

- Siaradwch â'ch tîm, eich ymddiriedolwyr a'ch gwirfoddolwyr oherwydd efallai y bydd gan lawer ohonynt gysylltiadau â chymunedau na wnaethant eu hystyried o'r blaen.
- Meddyliwch yn ochrol a dal ati i holi.
- Peidiwch ag ofni sgwrsio â phobl mewn siopau neu fwytai lleol.
- Mae'n bwysig iawn gosod ffiniau a rheoli disgwyliadau – nodwch yn glir beth rydych yn gofyn i bobl ei wneud a sut y caiff hyn ei ddefnyddio.
- Peidiwch ag ofni gofyn a fyddai gan bobl ddiddordeb; weithiau dydi ffiniau daearyddol ddim yn bwysig, ac weithiau maen nhw.
- Byddwch yn barod i gydnabod profiad pobl a'i werthfawrogi; gall hyn gynnwys cynnig talu costau neu dreuliau, neu gyfraniad at amser pobl.

Rheoli risgiau

Rydym yn awgrymu cynnal Adolygiad Risgiau cyn y gweithdai. Bydd hyn yn helpu i leihau unrhyw risgiau ac yn sicrhau bod y casgliadau a'r pobl sy'n cymryd rhan yn cael gofal priodol. Dylai'r gofrestr risgiau ystyried y meysydd a ganlyn:

Casgliadau

A ydi'r gwrthrychau'n addas ac yn ddigon cadarn i bobl afael ynddynt a'u trafod yn ofalus? A oes arnoch angen mowntiau neu orchuddion diogelu? A oes digon o fyrddau fel y gall pobl eistedd wrth fwrdd i drafod y gwrthrychau? A ellir darparu menig, ac a oes digon o staff i oruchwylio?

Cyfranogwyr

A ydynt yn deall nod y sesiwn?

A oes ganddynt anghenion hygyrchedd ychwanegol?

Sensitifrwydd


Ydi pwnc neu thema'r casgliadau yn rhywbeth y dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw y gallai beri loes? Cofiwch y gall gwahanol gymunedau ystyried materion sensitifrwydd mewn gwahanol ffordd.



Mae canllawiau yma gan [Museum Development North](#) ar yr arferion gorau wrth sôn am bynciau a all fod yn sensitif ac yma gan [Brifysgol Reading](#).

Arwyddocâd dan arweiniad y gymuned | Nodau:

- Archwilio rhannau penodol o'r casgliad gydag aelodau o'r gymuned sydd â chysylltiad â'r casgliad, neu ddiddordeb ynddo
- Annog aelodau o'r gymuned i ymgysylltu â'r casgliad trwy gymryd rhan weithredol
- Defnyddio cyfraniadau gan y gymuned i ddysgu mwy am y casgliad
- Casglu a chofnodi gwybodaeth ac arbenigedd sy'n berthnasol i'n casgliadau gan y gymuned
- Annog grwpiau cymunedol i ddod i nabod y casgliadau'n dda. Bydd angen i chi fod wedi pennu casgliad i ganolbwyntio arno, wedi gwirio bod gennych wybodaeth am y gwrthrychau, ac wedi penderfynu ar grŵp o bobl i gymryd rhan yn y gweithdy (gweler Cam 2 o'r Pecyn Cymorth).

**Y Casgliad**

Mae angen i'r gwrthrychau a ddewisir fod yn gynrychioliadol o'r casgliad yr ydych yn ei ystyried. Gallech wahodd cyfranogwyr i helpu i ddewis y gwrthrychau, ond mae'n debygol y bydd angen sesiwn ar wahân i wneud hyn. Dylai'r gwrthrychau a ddewisir fod allan ac yn barod cyn y gweithdy, a dylent gynrychioli'r casgliad o ran dyddiadau, deunyddiau ac arddulliau. Bydd angen digon o wrthrychau arnoch i gael un rhwng dau berson, neu un i bob un, fel y gall pawb edrych yn fanwl iawn ar yr eitem. Awgrymwn fod pob un (neu bob pâr o bobl) yn gweithio ar ddim ond un gwrthrych. Bydd cyfleoedd yn nes ymlaen yn y sesiwn i bobl gynnig sylwadau ar wrthrychau eraill.

Os bwriadwch gynnal mwy nag un gweithdy ar gyfer grwpiau gwahanol, gallech ddefnyddio'r un set o wrthrychau, neu set wahanol ar gyfer pob grŵp. Ystyriwch gymharu ymatebion y gwahanol grwpiau i'r gwrthrychau er mwyn cyrraedd consensws.

Elfennau Ymarferol

Gallech recordio'r sesiwn ar fideo, neu ddefnyddio Co-pilot neu offeryn tebyg a fyddai'n creu crynodeb ar ffurf nodiadau hefyd. Byddai angen i chi sicrhau bod yr offer recordio'n gallu codi lleisiau'r holl gyfranogwyr. Neu gallech gymryd nodiadau a defnyddio taflenni gwaith i'r cyfranogwyr gofnodi eu sylwadau (â phensil).

Gwahoddiad Enghreifftiol:

“Hoffem eich gwahodd i gymryd rhan mewn gweithdy i'n helpu i ddeall mwy am ein casgliadau a'u harwyddocâd. Rydym yn canolbwyntio ar [enw'r casgliad yma] ac rydym wedi gwahodd pobl sydd â [nodwch brofiad neu ddiddordeb penodol yma] i gymryd rhan. Hoffem eich gwahodd chi i ymuno â ni mewn gweithdy casgliadau, i edrych ar gasgliad yr amgueddfa o [nodwch y math o gasgliad yma] ac i sôn am gysylltiad y casgliad hwn â'ch bywyd a'ch profiad chi.

Hoffem eich digolledu am eich amser, a gallwn dalu'ch costau am ddod i'r gweithdy hwn. Os rhowch wybod i ni, gallwn drafod y ffordd orau o wneud hyn.”

Ffurf a Awgrymir ar gyfer Trafodaeth Gymunedol | Cyflwyniad i'r Sesiwn

Gwahoddwch bobl i'w cyflwyno'u hunain. Gallech ofyn ymlaen llaw iddynt ddod â gwrthrych neu ffotograff sy'n gysylltiedig â'r casgliad neu â'u profiad eu hunain.

Eglurwch bwrpas y gweithdy. Mae'n bwysig bod y grŵp yn deall amcanion y sesiwn. Efallai y byddai'n well gan rai grwpiau weithio dros fwy nag un sesiwn, gydag ymweliad â'r amgueddfa a chyflwyniad i ddechrau. Wrth hwyluso'r grŵp, bydd angen bod yn hyblyg, ond hefyd fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau amser.

Trafodaeth yn y Sesiwn

Pan fydd pawb yn deall eu rôl ac effaith eu sylwadau, anogwch y grŵp i edrych yn fanwl ar yr eitemau ac i ofyn cwestiynau:

- O beth y mae wedi'i gwneud?
- Sut mae'n edrych?
- Pa mor fawr ydyw?
- Sut y cafodd ei gwneud? Beth mae'r eitem yn ei ddweud wrthym am y broses o'i gwneud?
- Beth yw prif nodweddion yr eitem?
- Beth sy'n arbennig am yr eitem hon?

Caiff arwyddocâd casgliadau ei ystyried o dan wahanol benawdau; edrychwch ar bob un yn ei dro a gofyn pam mae'r casgliad, neu'r eitemau unigol, yn arwyddocaol.

Dod â'r Sesiwn i Ben

Ar ôl cael trafodaeth ehangach, ceisiwch ddod â'r holl sylwadau ynghyd i gyrraedd rhyw fath o gonsensws ynghylch arwyddocâd y casgliad(au). Bydd hyn yn helpu'r grŵp i ddeall bod eu cyfraniad wedi bod yn bwysig wrth ddiffinio'r meysydd arwyddocâd penodol a nodwyd. Dylid coladu'r nodiadau a llunio crynodeb, gan ddefnyddio'r penawdau a/neu'r mathau o arwyddocâd a awgrymir.

Taflen i'w hargraffu ar gyfer y cyfranogwyr, ar y ddwy dudalen nesaf.

Arwyddocâd cymunedol**Cymerwch olwg ar yr eitem:**

- O beth y mae wedi'i gwneud?
- Sut mae'n edrych?
- Pa mor fawr ydyw?
- Sut y cafodd ei gwneud a beth mae'r eitem yn ei ddweud wrthym am y broses o'i gwneud?
- Beth yw prif nodweddion yr eitem?
- Beth sy'n arbennig am yr eitem hon?

Arwyddocâd**Nodiadau****Hanesyddol**

A oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y casgliad a digwyddiad, person neu grŵp hanesyddol?

Ble y cafodd ei greu a beth oedd ei bwrpas?

Pam y cafodd ei gasglu gan yr amgueddfa?

A ydi'r casgliad yn cynrychioli thema neu batrwm bywyd penodol?

Beth mae'n ei ddweud wrthym am yr hanes?

Artistig / aesthetig

A oedd y dyluniad yn ddylanwadol?

A oes cysylltiad rhwng gwahanol ddyluniad yr eitemau?

A yw'r dyluniad / gwneuthuriad o safon uchel?

Cymdeithasol

Ydyn ni'n gwybod pwy oedd yn berchen ar yr eitem neu pwy a'i gwnaeth? Beth oedd eu rôl?

Ydi'r eitemau'n ein helpu i ddeall bywyd yn y gorffennol a rôl gwahanol aelodau'r teulu/ gymuned?

A yw'r eitemau'n symbolau o syniadau neu ddiwylliant?

Gwyddonol / technolegol

Ydi'r casgliad yn berthnasol i newidiadau mewn gwyddoniaeth neu dechnoleg? Ydi'r dull cynhyrchu a ddefnyddiwyd i'w wneud yn debyg i'r hyn a ddefnyddir heddiw?

Gwerth ac effaith gymunedol

A ydi'r eitemau'n golygu rhywbeth neilltuol i grŵp penodol yn y gymuned?

Sut mae pobl yn ymateb i'r casgliad?

Pa werthoedd y mae'n eu cynrychioli?

Pa mor brin / gynrychioliadol?

A oes enghreifftiau eraill mewn amgueddfeydd yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol?

Sut mae'r eitem hon yn berthnasol i'r enghreifftiau eraill hyn?

A ydi'r eitem hon yn unigryw?

A ydi'r eitemau o ansawdd da?

Arall

Dywedwch wrthym ym mha ffyrdd eraill y mae'r casgliad hwn yn arwyddocaol o'ch safbwynt chi